# Mathemateg - Cynradd

Gall rhieni neu ofalwyr ddefnyddio pecynnau dysgu gartref Stonewall i helpu eu plentyn i ddysgu, neu gall staff addysg eu defnyddio i anfon gwaith adref i'w disgyblion. Mae fersiwn cynradd, uwchradd ac Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd o bob pecyn ar gael, gyda rhestr o weithgareddau a deunyddiau ategol i chi ddewis o'u plith. Mae'r pecyn mathemateg yma'n cynnwys amrywiaeth o daflenni gwaith a chwestiynau i'ch plentyn weithio arnyn nhw.

**Mae'r pecyn yma ar gyfer plant Cyfnod Allweddol 2.**

## Stonewall

Mae'r adnodd yma wedi ei gynhyrchu gan Stonewall, elusen sydd wedi ei leoli yn y DU ac sy'n sefyll dros rhyddid, ecwiti, a potensial pob person lesbiaidd, hoyw, deurhywiol, traws, cwîar, cwestiynu ac ace (LHDT+).

Yn Stonewall, dychmygwn byd ble all pobl LHDTC+ ym mhobman byw bywydau llawn. Cawsom ein sefydlu yn Llundain yn 1989, ac yn awr rydym yn gweithio ym mhob wlad y DU a rydym wedi sefydlu partneriaethau ar draws y byd. Dros y tair degawd diwethaf, rydym wedi creu newidiadau trawsffurfiedig ym mywydau pobl LHDTC+ yn y DU, gan helpu ennill hawliau hafal o ran priodas, cael plant, ac addysg cynwysiedig.

Mae ein ymgyrchoedd yn creu newidiadau positif i'n cymunedau, ac mae ein rhaglenni newid cynaliadwy a grymusrwydd yn sicrhau bod pobl LHDTC+ yn gallu ffynnu trwy gydol ein bywydau. Rydym ni'n sicrhau bod y byd yn clywed ac yn dysgu o'n cymunedau, ac bod ein gwaith ni wedi ei seilio yn tystiolaeth ac arbenigedd.

Mae Stonewall yn falch i ddarparu wybodaeth, cefnogaeth a cyngor ar cynwysedd LHDTC+; gweithio tuag at byd ble yr ydym i gyd yn rhydd i fyw. Nid yw hyn yn gyfystirio cyngor gyfreithiol, ac nid ydy'n bwriadu cymryd lle cyngor gyfreithiol ar unrhyw pwnc. I ddarganfod mwy amdano ein gwaith ni, ewch i www.stonewallcymru.org.uk.

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

Wedi mwynhau'r adnodd yma? Ymunwch â ni heddiw! Mae ein tîm arbennig o athrawon a hyfforddwyr wedi cefnogi cannoedd o leoliadau ar eu teithiau cynhwysedd i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn rhydd i fod ei hun. Mae gan ein rhaglen aelodaeth i ysgolion a cholegau ac ein rhaglen aelodaeth i wasanaethau plant a phobl ifanc rhywbeth i gynnig i bob lleoliad. Ymunwch heddiw a manteisiwch o:

- Cyrsiau e-ddysgu achrededig
- Mynediad at ein gwobr gwasanaethau plant a phobl ifanc
- Cefnogaeth unigryw oddi wrth ein tîm

Mae'r manteision yma, a mwy, wedi cynnwys yn y pris aelodaeth.

Edrych am hyfforddiant arbennig? Mae ein hyfforddwyr profiadol yn gallu darparu sesiynau ar gyfer darparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon (ITT), ysgolion dysgu, rhwydweithiau datblygiad proffesiynol, a nifer fawr o leoliadau eraill, yn Saesneg ac yn Gymraeg. Cysylltwch â ni addysg@stonewall.cymru i darganfod mwy ac i drafod eich anghenion.

Dewiswch y gweithgaredd cywir ar gyfer eich plentyn:

- ☆ fersiwn symlach o'r gweithgaredd
- ♡ y fersiwn o'r gweithgaredd y bydd y rhan fwyaf o blant yn ei ddefnyddio
- 📢 fersiwn anoddach o'r gweithgaredd

Cofiwch gall cownteri, darnau arian neu hyd yn oed darnau o basta helpu eich plentyn gyda mathemateg. Efallai y byddan nhw hefyd am greu neu argraffu llinell rif neu sgwâr 100. Weithiau mae plant yn gallu ei chael hi'n anodd deall problemau geiriau - mae'n bosib y gallai helpu eich plentyn i drafod pob cwestiwn gyda chi neu i dynnu lluniau i helpu eu dealltwriaeth.

Os yw eich plentyn yn ei chael hi'n anodd darllen, gall fod yn ddefnyddiol i chi recordio eich hunan yn darllen pob cwestiwn ar eich ffôn neu ddyfais er mwyn i'ch plentyn allu neidio a gwrando drwy bob recordiad wrth fynd o un cwestiwn i'r llall.

# Adnoddau ar gyfer plant Blwyddyn 3

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

# Problemau geiriau

1. Roedd gan Jensen 16 pensil ond torrodd 7 ohonyn nhw. Faint o bensiliau sydd ganddo ar ôl?

2. Prynodd mam Mathilda 39 o fefus. Fe wnaethon nhw fwyta 20 i ginio. Faint o fefus sydd ar ôl?

3. Mae Dionne wedi cynilo £35. Maen nhw'n cael £10 yn anrheg pen-blwydd. Faint o arian sydd gan Dionne nawr?

4. Mae gan Hamza 37 darn o Lego ac mae gan ei frawd 50 darn. Faint o ddarnau o Lego sydd ganddyn nhw i gyd?

5. Mae gan Remy 21 o farblis ac mae'n eu rhannu nhw'n gyfartal rhyngddo ef a'i ddau dad. Faint o farblis sydd gan bob person?

6. Mae tad Fran yn pobi 15 o fisgedi ac yn eu rhannu nhw'n deg gyda hi a'i brawd. Faint o fisgedi fydd Fran yn eu cael? (cofiwch y bydd tad Fran eisiau rhai o'r bisgedi hefyd!)

7. Mae gan bawb yn nheulu Rafael 3 het. Mae 4 o bobl yn y teulu. Faint o hetiau sydd ganddyn nhw i gyd?

8. Mae Rojin yn delio 5 cerdyn i bob aelod o'i deulu. Mae 5 o bobl yn y teulu. Faint o gardiau mae Rojin wedi'u delio?

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

# Problemau geiriau

1. Roedd gan Jensen 36 pensil ond torrodd 17 ohonyn nhw. Faint o bensiliau sydd ganddo ar ôl?

2. Prynodd mam Mathilda 42 o fefus. Fe wnaethon nhw fwyta 19 i ginio. Faint o fefus sydd ar ôl?

3. Mae Dionne wedi cynilo £35. Maen nhw'n cael £16 yn anrheg pen-blwydd. Faint o arian sydd gan Dionne nawr?

4. Mae gan Hamza 37 darn o Lego ac mae gan ei frawd 54 darn. Faint o ddarnau o Lego sydd ganddyn nhw i gyd?

5. Mae gan Remy 32 o farblis ac mae'n eu rhannu nhw'n gyfartal rhyngddo ef, ei chwaer a'i ddau dad. Faint o farblis sydd gan bob person?

6. Mae tad Fran yn pobi 48 o fisgedi ac yn eu rhannu nhw'n deg gyda hi a'i dau frawd. Faint o fisgedi fydd Fran yn eu cael? (cofiwch y bydd tad Fran eisiau rhai o'r bisgedi hefyd!)

7. Mae gan bawb yn nheulu Rafael 4 het. Mae 6 o bobl yn y teulu. Faint o hetiau sydd ganddyn nhw i gyd?

8. Mae Rojin yn delio 6 cherdyn i bob aelod o'i deulu. Mae 4 o bobl yn y teulu. Faint o gardiau mae Rojin wedi'u delio?

# Problemau geiriau

1. Roedd gan Jensen 36 pensil ond torrodd chwarter ohonyn nhw. Faint o bensiliau sydd ganddo ar ôl?

2. Prynodd mam Mathilda 432 o fefus. Fe wnaethon nhw fwyta 193 o fefus i ginio a 120 o fefus i swper. Faint o fefus sydd ar ôl?

3. Mae Dionne wedi cynilo £390. Maen nhw'n cael £16 gan eu tad a £12 gan eu mam. Faint o arian sydd gan Dionne nawr?

4. Mae gan Hamza 37 darn o Lego ac mae gan ei frawd 54 darn. Mae gan eu cefnder 34 darn hefyd. Faint o ddarnau o Lego sydd ganddyn nhw i gyd?

5. Mae gan Remy 35 o farblis ac mae'n eu rhannu nhw'n gyfartal rhyngddo ef, ei chwaer a'i ddau dad. Faint o farblis sydd gan bob person? A yw pawb yn cael yr un nifer o farblis?

6. Mae tad Fran yn pobi 48 bisged. Mae'n cadw hanner ohonyn nhw mewn tun ac yn rhannu'r gweddill yn deg gyda hi a'i dau frawd. Faint o fisgedi fydd Fran yn eu cael? (cofiwch y bydd tad Fran eisiau rhai o'r bisgedi hefyd!)

7. Mae gan bawb yn nheulu Rafael 4 het. Mae 6 o bobl yn y teulu. Mae hanner yr hetiau yn hetiau ar gyfer y gaeaf. Faint o hetiau ar gyfer y gaeaf sydd gan deulu Rafael?

8. Mae Rojin yn delio 7 cerdyn i bob aelod o'i deulu. Mae 5 o bobl yn y teulu. Mae Rojin wedi delio hanner y cardiau. Faint o gardiau sydd ar ôl yn y pecyn?

# Y briodas

Mae Emma a Samina yn priodi ac maen nhw'n mynd i wahodd 50 o westeion. Mae modd iddyn nhw gael byrddau maint gwahanol ac maen nhw'n ceisio penderfynu beth yw'r cyfuniad gorau.

Mae lle i 10 o bobl ar y byrddau mawr.

Mae lle i 5 o bobl ar y byrddau canolig.

Mae lle i 2 o bobl ar y byrddau bach.

Pa gyfuniadau posib o fyrddau gallen nhw eu cael? Dewch o hyd i bob cyfuniad posib. Er enghraifft, 3 bwrdd mawr a 4 bwrdd canolig.

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

# Y briodas

Mae Emma a Samina yn priodi ac maen nhw'n mynd i wahodd 48 o westeion. Mae modd iddyn nhw gael byrddau maint gwahanol ac maen nhw'n ceisio penderfynu beth yw'r cyfuniad gorau.

Mae lle i 8 o bobl ar y byrddau mawr.

Mae lle i 6 o bobl ar y byrddau canolig.

Mae lle i 2 o bobl ar y byrddau bach.

Pa gyfuniadau posib o fyrddau gallen nhw eu cael? Dewch o hyd i bob cyfuniad posib. Er enghraifft, 3 bwrdd mawr a 4 bwrdd canolig.

# Y briodas

Mae Emma a Samina yn priodi ac maen nhw'n mynd i wahodd 48 o westeion. Mae modd iddyn nhw gael byrddau maint gwahanol ac maen nhw'n ceisio penderfynu beth yw'r cyfuniad gorau.

Mae lle i 8 o bobl ar y byrddau mawr.

Mae lle i 6 o bobl ar y byrddau canolig.

Mae lle i 4 o bobl ar y byrddau bach.

Pa gyfuniadau posib o fyrddau gallen nhw eu cael? Dewch o hyd i bob cyfuniad posib. Er enghraifft, 3 bwrdd mawr a 4 bwrdd canolig.

# Adnoddau ar gyfer plant Blwyddyn 4

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

# Problemau geiriau

1. Roedd gan Jensen 36 pensil ond torrodd 17 ohonyn nhw. Faint o bensiliau sydd ganddo ar ôl?

2. Prynodd mam Mathilda 42 o fefus. Fe wnaethon nhw fwyta 19 i ginio. Faint o fefus sydd ar ôl?

3. Mae Dionne wedi cynilo £35. Maen nhw'n cael £16 yn anrheg pen-blwydd. Faint o arian sydd gan Dionne nawr?

4. Mae gan Hamza 37 darn o Lego ac mae gan ei frawd 54 darn. Faint o ddarnau o Lego sydd ganddyn nhw i gyd?

5. Mae gan Remy 32 o farblis ac mae'n eu rhannu nhw'n gyfartal rhyngddo ef, ei chwaer a'i ddau dad. Faint o farblis sydd gan bob person?

6. Mae tad Fran yn pobi 48 o fisgedi ac yn eu rhannu nhw'n deg gyda hi a'i dau frawd. Faint o fisgedi fydd Fran yn eu cael? (cofiwch y bydd tad Fran eisiau rhai o'r bisgedi hefyd!)

7. Mae gan bawb yn nheulu Rafael 4 het. Mae 6 o bobl yn y teulu. Faint o hetiau sydd ganddyn nhw i gyd?

8. Mae Rojin yn delio 6 cherdyn i bob aelod o'i deulu. Mae 4 o bobl yn y teulu. Faint o gardiau mae Rojin wedi'u delio?

# Problemau geiriau

1. Roedd gan Jensen 36 pensil ond torrodd chwarter ohonyn nhw. Faint o bensiliau sydd ganddo ar ôl?

2. Prynodd mam Mathilda 42 o fefus. Fe wnaethon nhw fwyta 19 i ginio a 12 i swper. Faint o fefus sydd ar ôl?

3. Mae Dionne wedi cynilo £35. Maen nhw'n cael £16 gan eu tad a £12 gan eu mam. Faint o arian sydd gan Dionne nawr?

4. Mae gan Hamza 37 darn o Lego ac mae gan ei frawd 54 darn. Mae gan eu cefnder 34 darn hefyd. Faint o ddarnau o Lego sydd ganddyn nhw i gyd?

5. Mae gan Remy 35 o farblis ac mae'n eu rhannu nhw'n gyfartal rhyngddo ef, ei chwaer a'i ddau dad. Faint o farblis sydd gan bob person? A yw pawb yn cael yr un nifer o farblis?

6. Mae tad Fran yn pobi 48 bisged. Mae'n cadw hanner ohonyn nhw mewn tun ac yn rhannu'r gweddill yn deg gyda hi a'i dau frawd. Faint o fisgedi fydd Fran yn eu cael? (cofiwch y bydd tad Fran eisiau rhai o'r bisgedi hefyd!)

7. Mae gan bawb yn nheulu Rafael 4 het. Mae 6 o bobl yn y teulu. Mae hanner yr hetiau yn hetiau ar gyfer y gaeaf. Faint o hetiau ar gyfer y gaeaf sydd gan deulu Rafael?

8. Mae Rojin yn delio 7 cerdyn i bob aelod o'i deulu. Mae 5 o bobl yn y teulu. Mae Rojin wedi delio hanner y cardiau. Faint o gardiau sydd ar ôl yn y pecyn?

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

# Problemau geiriau

1. Roedd gan Jensen 36 pensil ond torrodd traean ohonyn nhw. Faint o bensiliau sydd ganddo ar ôl?

2. Prynodd mam Mathilda 42 o fefus. Fe wnaethon nhw fwyta hanner y mefus i ginio a 12 i swper. Faint o fefus sydd ar ôl?

3. Mae Dionne wedi cynilo £35.00. Maen nhw'n cael £16.50 gan eu tad a £12.25 gan eu mam. Faint o arian sydd gan Dionne nawr?

4. Mae gan Hamza 37 darn o Lego ac mae gan ei frawd 54 darn. Mae gan eu cefnder ddwywaith cymaint o ddarnau. Faint o ddarnau o Lego sydd gan eu cefnder?

5. Mae gan Remy 124 o farblis ac mae'n eu rhannu nhw'n gyfartal rhyngddo ef, ei chwaer a'i ddau dad. Faint o farblis sydd gan bob person?

6. Mae tad Fran yn pobi 50 bisged. Mae'n cadw hanner ohonyn nhw mewn tun ac yn rhannu'r gweddill gyda hi a'i dau frawd. Faint o fisgedi fydd Fran yn eu cael? A fydd pawb yn cael yr un nifer o fisgedi? (cofiwch y bydd tad Fran eisiau rhai o'r bisgedi hefyd!)

7. Mae Rafael yn darllen 25 tudalen o'i lyfr bob dydd. Sawl tudalen fydd e wedi'u darllen mewn 4 wythnos?

8. Mae Rojin yn delio 12 cerdyn i bob aelod o'i deulu. Mae 6 o bobl yn y teulu. Mae Rojin wedi delio traean o'r cardiau. Faint o gardiau sydd ar ôl yn y pecyn?

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

# Y blodau

Mae Justin a Darren wrthi'n penderfynu ar drefniadau blodau ar gyfer eu priodas. Bydd 30 o flodau ym mhob trefniant.

Maen nhw eisiau blodau melyn, gwyn ac oren. Faint o gyfuniadau posib o flodau gallen nhw eu cael?

Er enghraifft, un cyfuniad fyddai 10 blodyn melyn, 10 blodyn gwyn a 6 blodyn oren.

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

# Y blodau

Mae Justin a Darren wrthi'n penderfynu ar drefniadau blodau ar gyfer eu priodas. Bydd 26 o flodau ym mhob trefniant.

Maen nhw eisiau blodau melyn, gwyn ac oren. Faint o gyfuniadau posib o flodau gallen nhw eu cael?

Er enghraifft, un cyfuniad fyddai 10 blodyn melyn, 10 blodyn gwyn a 6 blodyn oren.

# Y blodau

Mae Justin a Darren wrthi'n penderfynu ar drefniadau blodau ar gyfer eu priodas. Bydd 26 o flodau ym mhob trefniant.

Maen nhw eisiau blodau melyn, gwyn ac oren. Faint o gyfuniadau posib o flodau gallen nhw eu cael?

Er enghraifft, un cyfuniad fyddai 10 blodyn melyn, 10 blodyn gwyn a 6 blodyn oren.

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

# Adnoddau ar gyfer plant Blwyddyn 5

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

# Problemau geiriau

1. Mae gan Ruth 554 darn o Lego. Mae'n cael set newydd sydd â 326 darn o Lego. Faint o ddarnau o Lego sydd gan Ruth nawr?

2. Perfformiodd Sam Smith i dorf o 2,362 ym Manceinion. Gwelodd 5,249 o bobl nhw'n perfformio yn Llundain. Faint o bobl welodd nhw i gyd?

3. Prynodd Nikola a'i ddwy fam fag mawr o losin. Roedd 120 losin yn y bag, ac roedd traean ohonyn nhw'n goch. Faint o losin coch oedd yn y bag?

4. Mae Nafeesa yn pobi cacennau gyda 4 o'i chefndryd. Mae pob un ohonyn nhw'n ychwanegu 2 gwpanaid o siwgr ac 8 cwpanaid o flawd i'r bowlen. Sawl cwpanaid o gynhwysion sydd wedi cael eu hychwanegu hyd yn hyn?

5. Mae Ava a'i thadau'n dechrau gwylio ffilm am 9:45am. Mae'r ffilm yn gorffen am 11:30am. Pa mor hir oedd y ffilm?

6. Mae Chanice wedi cynilo £25.45. Mae hi'n gwario £8.25 ar gerddoriaeth. Faint o arian sydd ar ôl gan Chanice?

7. Prynodd nain Dylan 5 tun o gawl am £1.90 yr un. Faint wnaeth hi ei wario i gyd?

8. Cymerodd Rhianna awr i ddarllen 30 tudalen o'i llyfr. Os byddai'n darllen am awr bob dydd ym mis Ebrill, sawl tudalen fydd hi wedi'i ddarllen?

# Problemau geiriau

1. Mae gan Ruth 6054 darn o Lego. Mae'n cael set newydd sydd â 426 darn o Lego. Faint o ddarnau o Lego sydd gan Ruth nawr?

2. Perfformiodd Sam Smith i dorf o 20,362 ym Manceinion. Gwelodd 54,249 o bobl nhw'n perfformio yn Llundain. Faint o bobl welodd nhw i gyd?

3. Prynodd Nikola a'i ddwy fam fag mawr o losin. Roedd 540 losin yn y bag, ac roedd traean ohonyn nhw'n goch. Faint o losin coch oedd yn y bag?

4. Mae Nafeesa yn pobi cacennau gyda 4 o'i chefndryd. Mae pob un ohonyn nhw'n ychwanegu 2 gwpanaid o siwgr ac 8 cwpanaid o flawd i'r bowlen. Sawl cwpanaid o gynhwysion sydd wedi cael eu hychwanegu hyd yn hyn?

5. Mae Ava a'i thadau'n dechrau gwylio ffilm am 9:40am. Mae'r ffilm yn gorffen am 11:20am. Pa mor hir oedd y ffilm?

6. Mae Chanice wedi cynilo £25.38. Mae hi'n gwario £8.25 ar gerddoriaeth. Faint o arian sydd ar ôl gan Chanice?

7. Prynodd nain Dylan 5 tun o gawl am £1.96 yr un. Faint wnaeth hi ei wario i gyd?

8. Cymerodd Rhianna awr i ddarllen 38 tudalen o'i llyfr. Os byddai'n darllen am awr bob dydd ym mis Ebrill, sawl tudalen fydd hi wedi'i ddarllen?

# Problemau geiriau

1. Mae gan Ruth 6054 darn o Lego. Mae'n cael set newydd sydd â 426 darn o Lego. Faint o ddarnau o Lego sydd gan Ruth nawr? Mae hi'n adeiladu 6 thŵr. Faint o ddarnau lego fydd ym mhob tŵr?

2. Perfformiodd Sam Smith i dorf o 20,362 ym Manceinion. Gwelodd pum gwaith cymaint o bobl nhw'n perfformio yn Llundain. Faint o bobl welodd nhw i gyd?

3. Prynodd Nikola a'i ddwy fam fag mawr o losin. Roedd 540 losin yn y bag, ac roedd 10% ohonyn nhw'n goch. Faint o losin coch oedd yn y bag?

4. Mae Nafeesa yn pobi cacennau gyda 6 o'i chefndryd. Mae pob un ohonyn nhw'n ychwanegu 2 gwpanaid o siwgr ac 8 cwpanaid o flawd i'r bowlen. Sawl cwpanaid o gynhwysion sydd wedi cael eu hychwanegu hyd yn hyn?

5. Mae Ava a'i thadau'n dechrau gwylio ffilm am 10:40am. Mae'r ffilm yn gorffen am 12:20pm. Pa mor hir oedd y ffilm?

6. Mae Chanice wedi cynilo £25.38. Mae hi'n gwario hanner yr arian ar ffilm a £5.25 ar gerddoriaeth. Faint o arian sydd ar ôl gan Chanice?

7. Prynodd nain Dylan 5 tun o gawl am £1.96 yr un ac 8 tun o ffa am £1.33 yr un. Faint wnaeth hi ei wario i gyd?

8. Cymerodd Rhianna awr i ddarllen 38 tudalen o'i llyfr. Os byddai'n darllen am 2 awr bob dydd am flwyddyn, sawl tudalen fydd hi wedi'i ddarllen?

# Y babell fawr

Mae Miguel a Zak yn llogi pabell fawr ar gyfer eu priodas ac yn bwriadu ei haddurno gyda goleuadau tylwyth teg sy'n mynd yr holl ffordd o amgylch y babell. Maen nhw'n gwybod mai arwynebedd y babell fydd $50m^2$, ond dydyn nhw ddim yn gwybod beth yw perimedr y babell.

1. Beth yw'r hyd lleiaf posib o oleuadau tylwyth teg sydd ei angen i addurno'r babell?
2. Beth yw'r hyd mwyaf posib o oleuadau tylwyth teg sydd eu hangen i addurno'r babell? (Gan dybio bod holl gorneli'r babell yn onglau sgwâr)

# Y babell fawr

Mae Miguel a Zak yn llogi pabell fawr ar gyfer eu priodas ac yn bwriadu ei haddurno gyda goleuadau tylwyth teg sy'n mynd yr holl ffordd o amgylch y babell. Maen nhw'n gwybod mai arwynebedd y babell fydd $72m^2$, ond dydyn nhw ddim yn gwybod beth yw perimedr y babell.

1. Beth yw'r hyd lleiaf posib o oleuadau tylwyth teg sydd ei angen i addurno'r babell?
2. Beth yw'r hyd mwyaf posib o oleuadau tylwyth teg sydd eu hangen i addurno'r babell? (Gan dybio bod holl gorneli'r babell yn onglau sgwâr)

# Y babell fawr

Mae Miguel a Zak yn llogi pabell fawr ar gyfer eu priodas ac yn bwriadu ei haddurno gyda goleuadau tylwyth teg sy'n mynd yr holl ffordd o amgylch y babell. Maen nhw'n gwybod mai arwynebedd y babell fydd $72m^2$, ond dydyn nhw ddim yn gwybod beth yw perimedr y babell.

1. Beth yw'r hyd lleiaf posib o oleuadau tylwyth teg sydd ei angen i addurno'r babell?
2. Beth yw'r hyd mwyaf posib o oleuadau tylwyth teg sydd eu hangen i addurno'r babell? (Gan dybio bod holl gorneli'r babell yn onglau sgwâr)

Mae'r goleuadau tylwyth teg yn costio 99c y metr.

1. Faint yw'r lleiafswm y gallan nhw ddisgwyl ei wario ar oleuadau tylwyth teg?
2. Faint yw'r uchafswm y gallan nhw ddisgwyl ei wario ar oleuadau tylwyth teg?

# Adnoddau ar gyfer plant Blwyddyn 6

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

# Problemau geiriau

1. Mae gan Ruth 6054 darn o Lego. Mae'n cael set newydd sydd â 426 darn o Lego. Faint o ddarnau o Lego sydd gan Ruth nawr? Mae hi eisiau adeiladu mwy nag un tŵr sydd o uchder cyfartal. Sawl tŵr fyddai hi'n gallu eu hadeiladu? Pa mor dal fydden nhw?

2. Perfformiodd Sam Smith i dorf o 20,362 ym Manceinion. Gwelodd pum gwaith cymaint o bobl nhw'n perfformio yn Llundain. Aeth 10% o'r gynulleidfa i'w gweld nhw yn Manceinion ac yn Llundain. Faint o bobl wahanol welodd nhw i gyd?

3. Prynodd Nikola a'i ddwy fam fag mawr o losin. Roedd 540 losin yn y bag, ac roedd 20% ohonyn nhw'n goch. Faint o losin coch oedd yn y bag?

4. Mae Nafeesa yn pobi cacennau gyda 6 o'i chefndryd. Mae pob un ohonyn nhw'n ychwanegu 2 gwpanaid o siwgr ac 8 cwpanaid o flawd i'r bowlen. Sawl cwpanaid o gynhwysion sydd wedi cael eu hychwanegu hyd yn hyn? Os yw un cwpanaid o gynhwysion yn pwyso 120g, faint mae'r cymysgedd cyfan yn ei bwyso?

5. Mae Ava a'i thadau'n dechrau gwylio ffilm am 10:40am. Maen nhw'n stopio'r ffilm ar ei hanner ac yn treulio 15 munud yn gwneud brechdan. Mae'r teulu'n gorffen gwylio'r ffilm am 12:20pm. Pa mor hir oedd y ffilm?

6. Mae Chanice wedi cynilo £25.38. Mae hi'n gwario traean yr arian ar ffilm a £5.25 ar gerddoriaeth. Faint o arian sydd ar ôl gan Chanice?

7. Prynodd nain Dylan 5 tun o gawl am £1.96 yr un ac 8 tun o ffa am £1.33 yr un. Faint o newid gafodd hi o £50?

8. Cymerodd Rhianna awr i ddarllen 315 tudalen o'i llyfr. Sawl tudalen mae hi'n ei darllen mewn munud? Talgrynnwch eich ateb i'r dudalen gyfan agosaf.

# Problemau geiriau

1. Mae Ruth yn adeiladu tŵr Lego sy'n 47 darn o uchder a 3 darn o led. Mae hi'n adeiladu mwy o dyrau sydd union yr un fath â'i gilydd nes bod ganddi 8 tŵr. Sawl darn o Lego mae Ruth wedi'i ddefnyddio?

2. Mae tadcu Ava yn prynu 6 thusw o flodau. Mae pob tusw'n costio £2.25 yr un. Faint wnaeth e wario ar flodau?

3. Prynodd Nikola a'i ddwy fam fag mawr o losin. Roedd 540 losin yn y bag, ac roedd 5% ohonyn nhw'n goch. Faint o losin coch oedd yn y bag?

4. Mae Nafeesa yn arllwys diodydd i'w chefndryd. Mae hi'n arllwys y ddiod i bedwar gwydr 250ml ac un gwydr 500ml. Mae'r carton newydd o sudd oren bellach yn wag, ond faint oedd ynddo i ddechrau? Nodwch yr ateb mewn litrau.

5. Mae Ava a'i thadau'n dechrau gwylio ffilm am 12:40. Maen nhw'n stopio'r ffilm ar ei hanner ac yn treulio 15 munud yn gwneud brechdan. Mae'r teulu'n gorffen gwylio'r ffilm am 15:20. Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, maen nhw hefyd yn gwylio ffilm 93 munud o hyd. Faint wnaethon nhw ei dreulio'n gwylio ffilmiau?

6. Mae ystafell wely Chanice yn mesur 4.2m wrth 3.8m. Beth yw arwynebedd ei hystafell wely? Beth yw'r perimedr?

7. Prynodd nain Dylan 5 tun o gawl am £1.96 yr un ac 8 tun o ffa am £1.33 yr un. Faint o newid gafodd hi o £50?

8. Mae mam Jackson yn feiciwr brwd ac mae hi'n beicio 118km yr wythnos. Mae hi'n beicio mor bell â hynny bob wythnos. Pa mor bell fyddai hi'n ei feicio mewn blwyddyn? Pa mor bell fyddai hi'n ei feicio mewn 6 blynedd?

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

**Pecyn Dysgu Gartref: Mathemateg**

# Problemau geiriau

1. Mae Ruth yn adeiladu tŵr Lego sy'n 47.3cm o uchder, 3cm o ddyfnder a lled o 5cm. Beth yw cyfaint y tŵr?

2. Mae tadcu Ava yn prynu 6 thusw o flodau. Mae pob tusw'n costio £2.25 yr un. Faint o newid gafodd e o £20?

3. Prynodd Nikola a'i ddwy fam fag mawr o losin. Roedd 540 losin yn y bag, ac roedd 5% ohonyn nhw'n goch. Faint o losin coch oedd yn y bag?

4. Mae Nafeesa yn arllwys sudd oren a sudd afal i'w chefndryd. Mae hi'n arllwys y ddiod i bedwar gwydr 250ml ac un gwydr 500ml. Fe wnaeth hi arllwys yr un faint o sudd oren ag o sudd afal. Os oedd dau wydr yn cynnwys sudd oren a thri gwydr yn cynnwys sudd afal, pa sudd oedd yn y gwydr 500ml?

5. Mae Ava a'i thadau'n dechrau gwylio ffilm am 12:40. Maen nhw'n stopio'r ffilm ar ei hanner ac yn treulio 15 munud yn gwneud brechdan. Mae'r teulu'n gorffen gwylio'r ffilm am 15:20. Roedden nhw wrth eu boddau gyda'r ffilm ac fe wnaethon nhw ei gwylio hi 6 gwaith arall dros gyfnod o fis. Faint o amser wnaethon nhw ei dreulio'n gwylio'r ffilm yma?

6. Mae ystafell wely Chanice yn mesur 4.2m wrth 3.8m. Mae'r nenfwd 2.7m o'r llawr. Beth yw arwynebedd ei hystafell wely? Beth yw'r cyfaint?

7. Prynodd nain Dylan 5 tun o gawl am £1.96 yr un ac 8 tun o ffa am £1.33 yr un. Mae hi'n prynu'r un peth am 4 wythnos yn olynol. Faint o arian wnaeth hi wario ar fwyd tun?

8. Mae mam Jackson yn feiciwr brwd ac mae hi'n beicio 118.3km yr wythnos. Mae hi'n beicio mor bell â hynny bob wythnos. Pa mor bell fyddai hi'n ei feicio mewn blwyddyn? Pa mor bell fyddai hi'n ei feicio mewn 6 blynedd?

# Y llawr dawnsio

Mae India a Gemma yn cynllunio'u priodas. Maen nhw wrth eu bodd yn dawnsio, felly maen nhw am gael llawr dawnsio da.

Maen nhw'n bwriadu llogi llawr dawnsio gydag arwynebedd o $64m^2$.

Mae'n costio £2.32 fesul $1m^2$ o'r llawr. Mae pob teilsen llawr yn mesur 1m wrth 1m. Mae ymylon ar gyfer y llawr yn costio 75c y metr.

1. Beth yw'r perimedr lleiaf posib ar gyfer y llawr dawnsio?
2. Beth yw'r perimedr mwyaf posib ar gyfer y llawr dawnsio?
3. Beth yw'r gost isaf bosib ar gyfer y llawr dawnsio?
4. Beth yw'r gost uchaf bosib ar gyfer y llawr dawnsio?

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

# Y llawr dawnsio

Mae India a Gemma yn cynllunio'u priodas. Maen nhw wrth eu bodd yn dawnsio, felly maen nhw am gael llawr dawnsio da.

Maen nhw'n bwriadu llogi llawr dawnsio gydag arwynebedd o $64m^2$.

Mae'n costio £2.32 fesul $1m^2$ o'r llawr. Mae pob teilsen llawr yn mesur 1m wrth 1m. Mae ymylon ar gyfer y llawr yn costio 75c y metr.

1. Beth yw'r perimedr lleiaf posib ar gyfer y llawr dawnsio?
2. Beth yw'r perimedr mwyaf posib ar gyfer y llawr dawnsio?
3. Beth yw'r gost isaf bosib ar gyfer y llawr dawnsio?
4. Beth yw'r gost uchaf bosib ar gyfer y llawr dawnsio?
5. Cyfanswm cost rhentu'r llawr yw £165.80. Pa fath o lawr wnaeth India a Gemma ei ddewis?

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

# Y llawr dawnsio

Mae India a Gemma yn cynllunio'u priodas. Maen nhw wrth eu bodd yn dawnsio, felly maen nhw am gael llawr dawnsio da.

Maen nhw'n bwriadu llogi llawr dawnsio gydag arwynebedd o $64m^2$. Dydyn nhw methu penderfynu os mai llawr gydag ymylon plaen neu ymylon sy'n goleuo y dylen nhw ei gael.

Mae'n costio £2.32 fesul $1m^2$ o'r llawr. Mae pob teilsen llawr yn mesur 1m wrth 1m. Mae'r ymylon plaen ar gyfer y llawr yn costio 75c y metr.

Mae'r ymylon sy'n goleuo yn costio £1.25 y metr.

1. Beth yw'r perimedr lleiaf posib ar gyfer y llawr dawnsio?
2. Beth yw'r perimedr mwyaf posib ar gyfer y llawr dawnsio?
3. Beth yw'r gost isaf bosib ar gyfer y llawr dawnsio?
4. Beth yw'r gost uchaf bosib ar gyfer y llawr dawnsio?
5. Beth yw'r gwahaniaeth yn y gost rhwng y llawr dawnsio gydag ymylon sy'n goleuo a llawr dawnsio gydag ymylon plaen?

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)